Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5 (LLANGOLLEN, SIR DDINBYCH) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2016

MAE GWEINIDOGION CYMRU wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A5, neu gerllaw iddi, yn Llangollen, Sir Ddinbych.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 07:00 o'r gloch ar 18 Ionawr 2016 ac yn parhau mewn grym hyd 12:00 o'r gloch ar 18 Mawrth 2016 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. Gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o'r A5 a ddisgrifir yn Atodlen 1. Bydd arwyddion traffig a osodir ymlaen llaw, pan fo'n bosibl, yn dangos y cyfnodau pan fydd y ffordd ar gau a dim ond am gyfnodau byr y bydd hyn yn para. Nid oes angen unrhyw lwybrau dargyfeiriol.

ii. Gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar y darnau o'r A5 a ddisgrifir yn Atodlen 2.

iii. Gosod terfyn cyflymder o 10 mya a gwahardd goddiweddyd ar y darn o'r A5 a ddisgrifir yn Atodlen 1. Dim ond pan fydd gwaith confoi yn digwydd y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Dros Dro/2016).

M D BURNELL
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

YR ATODLENNI
ATODLEN 1
Gwahardd Cerbydau, Terfyn Cyflymder 10 mya a Dim Goddiweddyd Dros Dro

Y darn o'r A5 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r B5103, i'r gorllewin o Langollen hyd at ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth, Ffordd Maesmawr, i'r dwyrain o Langollen, Sir Ddinbych.

ATODLEN 2
Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn o'r A5 sy'n ymestyn o'r terfyn cyflymder 30 mya parhaol, i'r gorllewin o Langollen hyd at ei chyffordd â'r B5103.

Y darn o'r A5 sy'n ymestyn o'r terfyn cyflymder 30 mya parhaol, i'r dwyrain o Langollen hyd at ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth, Ffordd Maesmawr.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

THE A5 TRUNK ROAD (LLANGOLLEN, DENBIGHSHIRE) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS & RESTRICTIONS) ORDER 2016

THE WELSH MINISTERS have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A5 trunk road at Llangollen, Denbighshire.

The prohibitions and restrictions, which will be signed accordingly, are expected to come into force at 07:00 hours on 18 January 2016 and remain until 12:00 hours on 18 March 2016 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the Order is to temporarily:

i. Prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding in the length of the A5 described in Schedule 1. Any such closures will, wherever possible, be indicated by advance traffic signs and will only be for short periods of time. No diversionary routes are necessary.

ii. Impose a 40 mph speed limit in the lengths of the A5 described in Schedule 2.

iii. Impose a 10 mph speed limit and prohibit overtaking in the length of the A5 described in Schedule 1. The 10 mph speed limit will only apply during convoy working.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2016).

M D BURNELL
Transport, Welsh Government

SCHEDULES
SCHEDULE 1
Temporary Prohibition of Vehicles, 10 mph Speed Limit & No Overtaking

The length of the A5 that extends from its junction with the B5103, west of Llangollen to its junction with the unclassified Maesmawr Road, east of Llangollen, Denbighshire.

SCHEDULE 2
Temporary 40 mph Speed Limit

The length of the A5 that extends from the permanent 30mph speed limit west of Llangollen to its junction with the B5103.

The length of the A5 that extends from the permanent 30mph speed limit east of Llangollen to its junction with the unclassified Maesmawr Road.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru
www.gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE